DYDD NADOLIG

ESEIA 52:7-10; SALM 98;
HEBREAID 1:1-4 [5-12]; IOAN 1:1-14

● **Gweddi agoriadol**
Dduw'r Achubwr, a gerddaist ein daear
yn Eden a Galilea,
molwn di am dy gariad di-ben-draw,
dy amynedd diderfyn
a'r rhodd fwya i gyd,
drws iachawdwriaeth ar agor
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

● **Moliant**
O'r dechrau'n deg roedd
dy air
a siaradodd ein byd i fod,
dy air
sy'n taranu o'r nef,
dy air
sy'n llifo fel nant y mynydd,
dy air
sy'n sibrwd yn awel y bore,
dy air
a ddatguddiwyd gan frenhinoedd a phroffwydi,
dy air
a ddatguddiwyd drwy foliant angylion,
dy air
a ddatguddiwyd mewn gwasanaeth gwylaidd,

dy air
a ddatguddiwyd mewn plentyn bach,
dy air
sy'n fyw ers dechreuad pob peth
ac am byth.

● **Cyffes**
Rhoist dy bopeth i'r byd
yn y stabl lom honno.
Ganwyd cariad y diwrnod hwnnw,
cariad pur,
cariad llawn,
yn cael ei dywallt dros bawb
sy'n galw ar dy enw.

Cymaint o ras,
heb ei haeddu,
rhaid i ni ymateb.
Maddau i ni am fod mor anniolchgar
am rodd a roed mor hael.
Tyn ni at dy air,
fel y tynnwyd y bugeiliaid at y stabl,
gan ddwyn ein hoffrwm,
ein bywydau a'n cariad.
Rho i ni gân newydd i'w chanu,
un fydd yn atseinio
drwy'r byd hwn
a'r byd a ddaw.

● **Diolch**
Bloeddia dy orfoledd,
yr holl ddaear
a phopeth sydd ynddi.
Gorfoledda!
Daeth goleuni i'r byd!

Mae'r bryniau'n canu;
mae'r moroedd yn atseinio
i foliant dy enw.
Mae'r iachawdwriaeth,
a addawyd gynt,
yma ar y ddaear!

Mae cân yr angylion
yn seinio yn yr awyr;
ganwyd plentyn.
Halelwia!
Mae Gwaredwr y byd yma!